

CYNGOR SIR YNYS MÔN

afnodion y cyfarfod arbennig rhithiol gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2021

YN BRESENNOL:

Cynghorydd Glyn Haynes (Cadeirydd)
Cynghorydd Dafydd Roberts (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr R Dew, Jeff Evans, John Griffith,
Richard Griffiths, K P Hughes, T Ll Hughes MBE,
Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones,
Eric Wyn Jones, Richard Owain Jones, G O Jones, R Ll Jones,
Cynghorydd R.Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen,
R G Parry OBE FRAGS, Gary Pritchard, Alun Roberts,
J A Roberts, Margaret Murley Roberts, P S Rogers,
Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a Robin Williams

WRTH LAW:

Prif Weithredwr,
Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog
Monitro,
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,
Pennaeth proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,
Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Rheolwr Perfformiad a Chynllunio Busnes (GM)
Swyddog Pwyllgor (MEH).

**HEFYD YN
BRESENNOL:**

Dim

YMDDIHEURIADAU:

Y Cynghorwyr Dylan Rees a Nicola Roberts

Cyhoeddiadau

Cafwyd y cyhoeddiadau canlynol gan y Cadeirydd:-

Cydymdeimlwyd â theulu'r cyn Bennaeth Addysg, Mr Gwyn Parri a fu farw yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd ag unrhyw Aelod o'r Cyngor neu unrhyw aelod o staff sydd wedi dioddef profedigaeth.

* * * *

Dymunodd y Prif Weithredwr yn dda i Mr J Huw Jones, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a fydd yn ymddeol ar ddiwedd y mis yn dilyn 37 mlynedd o wasanaeth i'r Cyngor.

Bu Aelodau o'r Cyngor hefyd ddiolch i Mr J Huw Jones am ei wasanaeth gan ddymuno'n dda iddo ar ei ymddeoliad.

1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim.

2. DATGANIAD O'R CYFRIFON 2020/21 A'R ADRODDIAD ISA 260

Cyflwynwyd – adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 15 Tachwedd, 2021.

PENDERFYNWYD:-

- **Dderbyn y Datganiad Cyfrifon 2020/21 ac awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adain 151 i arwyddo'r cyfrifon.**
- **Nodi bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21 a chyfeirio'r ddogfen at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i'w llofnodi.**
- **Nodi'r gostyngiad o £188k yn nghanwariant Cronfa'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21 oherwydd diwygiadau a wnaed yn ystod y cyfnod archwilio sy'n effeithio ar Gronfa'r Cyngor. Mae hyn yn lleihau'r tanwariant am y flwyddyn o £4,204k i £4,016k.**

Daeth y cyfarfod i ben am 1.40 o'r gloch

**Y CYNGHORYDD GLYN HAYNES
CADEIRYDD**